Bwletin rieni 25/03/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae hi wedi bod yn braf gweld cymaint o ddisgyblion ar safle'r ysgol yr wythnos hon, a phan fyddwn yn dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg bydd pawb nol. Heb ddisgyblion mae ysgol yn adeilad heb bwrpas ac edrychaf ymlaen at weld pob ystafell nol mewn defnydd. Rydych chi wedi derbyn yr holl wybodaeth am ddychwelyd felly bydd llawer o'r bwletin hon yn canolbwyntio ar asesu a chynnwys y cyrsiau TGAU a Safon Uwch/UG

Os oes gennych gwestiynau pellach ar ôl darllen y pecyn gallwch gysylltu gyda'ch arweinydd cynnydd a lles (Bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk neu Bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk) neu gyda swyddfa'r ysgol (ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk).

Byddaf yn cynnal **sesiwn holi ac ateb am y broses asesu ar gyfer rieni blynyddoedd 11, 12 a 13 ar ddydd Gwener am 1.30yp.**

Microsoft Teams meeting **Join on your computer or mobile app** Click here to join the meeting	Dydd Gwener 26/3/21 1.30yp

Profion LFT

Bydd disgyblion blynyddoedd 11-13 yn derbyn ailgyflenwad o brofion LFT ar y dydd Llun cyntaf ar ôl Pasg os ydynt wedi cwblhau ffurflen caniatâd (neu ffurflen caniatâd rhiant i rai sy'n 15). Bydd disgyblion blwyddyn 10 yn derbyn ailgyflenwad ar y dydd Llun sy'n dilyn os oes ffurflen caniatâd rhieni wedi ei dderbyn.

Cyrraedd a gadael yr ysgol

Ar ôl Pasg bydd trafnidiaeth ysgol yn rhedeg fel arfer ar gyfer disgyblion sy'n gymwys. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi gludo'ch plentyn i'r ysgol er mwyn ceisio cadw'r niferoedd sydd ar y bysiau yn isel – gyda blynyddoedd 7, 8 a 9 nol bydd y niferoedd ar y bysiau yn cynyddu. Er mwyn lleihau tagfeydd traffig gyda'r bysiau gofynnwn i chi ollwng eich plant ger maes parcio'r ysgol yn hytrach na syth o flaen yr adeilad.

Mae'r ysgol wedi derbyn cwynion bod rhieni yn parcio eu ceir ym mynediad Cilgant Padarn Crescent ar ddiwedd y dydd ysgol. Gofynnwn yn garedig ar ran y trigolion i rieni osgoi parcio yn y fan yma.

Gwisg Ysgol

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda gwisg ysgol ac yn dymuno prynu unrhyw eitemau, yna gallwch wneud hynny trwy www.alisonjonesschoolwear.co.uk neu ffonio 01970 625288 ar gyfer 'clic-a-chasglu'. Deallwn fydd siopau dillad ar agor o'r 12fed o Ebrill a bydd cyfle wedyn i ddatrys unrhyw faterion gwisg.

Amserlen

Bydd hi'n yn **wythnos 2** o'r amserlen yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg. Gyda disgyblion iau yn dychwelyd bydd cofrestru yn parhau i fod ychydig yn hirach nes bo disgyblion 7-9 wedi cael cyfle i ymgartrefu eto.

Ffreutur
Bydd hwn ar agor pan mae disgyblion yn dychwelyd ar ôl Pasg. Ar hyn o bryd mae'r ffreutur yn parhau i dderbyn arian, ond mae gwaith wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo i baratoi'r system i symud tuag at un di-arian.

Trefniadau iechyd a diogelwch
Bydd y trefniadau iechyd a diogelwch yn parhau - mesur tymheredd, diheintio, profion LFT, mygydau a grwpiau cyswllt. Diolch am eich cydweithrediad yn y materion hyn.

Diwrnodau HMS
Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dydd Gwener 28ain o Fai yn parhau. Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dechrau Gorffennaf yn symud i ddydd Mercher 9fed o Fehefin. Mae hwn yn ddyddiad sirol a bydd y diwrnod yn caniatáu ysgolion uwchradd i gymedroli'r graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn fewnol a gydag ysgolion eraill.

Blwyddyn 10: Noson Rieni
Bydd noson rieni blwyddyn 10 ar nos Lun 19eg o Ebrill. Bydd manylion o'r system ar-lein yn dilyn.

Blwyddyn 10 a 12: Addasiadau i gyrsiau
Mae'r llywodraeth wedi cadarnhau bydd cynnwys cyrsiau TGAU ar gyfer blwyddyn 10 a Safon Uwch ar gyfer blwyddyn 12 yn cael eu haddasu er mwyn ymateb i'r cyfnodau clo a gall hwn leihau'r cynnwys neu'r asesiadau. Bydd manylion pellach yn dilyn dros y mis nesaf. (Gweler Addasu arholiadau allanol 2022 oherwydd y pandemig - BBC Cymru Fyw)

Blwyddyn 11: Dewisiadau
Bydd y broses dewisiadau yn parhau ar ôl i ddisgyblion ymgartrefu nôl yn yr ysgol. Rydyn ni wedi oedi ar nifer o faterion yn y broses i sicrhau ein bod yn medru rhoi sylw a chefnogaeth briodol i ddisgyblion unigol. Rydyn ni wedi llwyddo i gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion eleni er mwyn ymateb i'r galw am rai pynciau penodol.

Dymunaf wyliau Pasg hapus i bawb ac edrychaf ymlaen at weld eich plentyn nol yn yr ysgol ar y 12fed o Ebrill.

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)

Manylion asesu ac arholiadau (Bl. 11, 12 a 13)

Heddiw bydd eich plant wedi cael mynediad i'r wybodaeth ganlynol:

- Dull asesu'r ysgol - mae'r polisi llawn ar gael hefyd os mae angen wybodaeth bellach.
- Cynlluniau asesu pynciol ar gyfer pob pwnc
- Amserlen asesu sy'n dangos beth a phryd bydd yn cael ei asesu

Rydw i hefyd wedi atodi llythyr o gymwysterau Cymru sy'n crynhoi'r disgwyliadau cenedlaethol.

Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau yn y sesiwn holi ac ateb prynhawn 'fory, neu trwy gysylltu gyda'r ysgol. Bydd cyfle i ddisgyblion nodi cwestiynau gyda'i thiwtoriaid dosbarth ar fore Wener a byddwn ni'n ceisio ymateb i'r rhain cyn diwedd y dydd.

Dull asesu'r ysgol a chynlluniau asesu pynciol

Bydd yr ysgol yn asesu'r gwaith mae'r disgyblion wedi ei gyflawni. Ni fydd athrawon yn asesu gwaith sydd yn rhan o'r cwrs ond sydd heb ei addysgu oherwydd y cyfnod clo. Ni fydd yr asesiadau yn mesur potensial ond byddant yn seiliedig ar safon y gwaith mae'r disgyblion wedi cyflawni.

Bydd y broses asesu yn cynnwys tystiolaeth:

- Asesiadau di-arholiad (*ADA* neu NEA yn Saesneg): Mae'r rhain yn asesiadau sy'n cyfrannu at raddau disgyblion bob blwyddyn ac mae esiamplau'n cynnwys gwaith llafar, asesiadau dan reolaeth / gwaith cwrs, gwaith ymarferol, llyfrau braslunio celf ayb.
- Asesiadau hanesyddol: Roedd disgyblion wedi cwblhau ystod sylweddol o waith yn y tymor o Fedi tan Ragfyr. Roedd hwn yn cynnwys profion, traethodau, gwaith dosbarth, cyn-bapurau arholiad ayb. Gall athrawon defnyddio tystiolaeth o'r tymor cyntaf fel rhan o'r asesiad.
- Asesiadau ffurfiol: Mae CBAC wedi awgrymu nifer o asesiadau posib i'w cwblhau yn ystod yr hanner tymor rhwng Ebrill a diwedd Mai. Gall athrawon dewis sampl o'r rhain i gwblhau. Nid oes rhaid gwneud y rhain fel un asesiad mawr - gall athrawon troi cwestiynau unigol mewn i dasgau bach. Gall asesiad werth 80 marc cael ei wneud fel prawf mewn awr, neu dau brawf o hanner awr yr un neu bedwar tasg o 20 marc yr un wedi eu dosbarthu. Bydd athrawon yn nodi ffocws ar gyfer unrhyw dasg benodol. Bydd marcio'r profion hyn yn cael ei gymedroli i sicrhau tegwch.

Bydd manylion pob asesiad ar gyfer pwnc yn rhan o gynllun asesu pynciol, a bydd llyfryn yn cael ei ddosbarthu i ddisgyblion sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer pob pwnc. Mae'r cynlluniau yn nodi natur yr asesiad, ei gynnwys yn fras a'r amserlen asesu bynciol. Ni allwn ddweud yn union beth sydd mewn asesiad e.e. gallwn nodi bod asesiad yn draethawd Shakespeare ond ni allwn nodi fod e'n draethawd ar gymeriad penodol mewn drama benodol. Bydd llawer o wybodaeth yn y cynllun asesu a bydd athrawon yn rhannu gwybodaeth bynciol gyda'r disgyblion.

Mae rhai disgyblion yn derbyn amodau arbennig ar gyfer arholiadau a bydd trefniadau yn eu lle ar gyfer y rhain. Rydym yn deall bod COVID wedi effeithio ar bob myfyriwr ac mae'r trefniadau cenedlaethol yn ystyried hwn. Bydd hefyd ystyriaeth arbennig ar gyfer disgyblion sy'n wynebu heriau fwy na disgyblion eraill yn ystod y cyfnod asesu. Mae angen tystiolaeth ar gyfer ystyriaeth arbennig e.e. nodyn doctor.

Bydd athrawon yn pwysoli asesiadau – bydd asesiadau mawr o dan oruchwyliaeth athrawon gwerth fwy nag asesiadau bach gwnaethpwyd adref gyda chymorth llyfrau. Ar ddiwedd y broses asesu bydd athrawon yn casglu'r holl dystiolaeth at ei gilydd, gan ystyried hefyd gwybodaeth gefndirol ar gyfer unrhyw ystyriaeth arbennig/addasiadau. Bydd yr athro yn llunio gradd ffit orau ar sail y dystiolaeth gydag eglurhad ar gyfer hwn. Nid yw hwn yn fater o adio marciau pob prawf a gweld beth yw'r cyfanswm – mae'r broses yn un holistig.

Wrth i ni lunio amserlen asesu, ceisiwn osgoi gormod o asesu ar yr un diwrnod. Ni fydd dau asesiad sylweddol ar yr un dydd yn digwydd yn aml, ond gall ddau asesiad bach digwydd yn fwy aml. Nodwch fod rhai dosbarthiadau yn gwneud asesiadau ar ddiwrnodau amserlen, a disgwylir i ddisgyblion osgoi trafod asesiadau.

Defnyddiwn y diwrnodau HMS ar ddiwedd Mai/dechrau Mehefin i asesu, cyfuno gwybodaeth, cytuno ar raddau a chymedroli.

Yn ystod mis Mehefin byddwn yn rhannu'r graddau a'r rhesymau gyda disgyblion. Bydd cyfle iddynt drafod ac os oes gwall yn y wybodaeth gallwn adolygu'r graddau. Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw sylwadau ond ni fydd hawl awtomatig i ddisgyblion cael y gradd wedi ei newid – rhaid i unrhyw radd fod ar sail tystiolaeth.

Mewn unrhyw apêl fewnol bydd aelodau staff gwahanol yn edrych ar y radd i ystyried os yw hon yn rhesymol. Bydd hwn yn digwydd cyn i'r graddau cael eu hanfon i CBAC. Bydd CBAC yn edrych ar broffil cyrhaeddiad yr ysgol mewn cyrsiau unigol ac ystyried os yw'r graddau yn addas. Ni fydd CBAC yn newid graddau ond gallent ofyn am gyfiawnhad o'r graddau a gofyn i'r ysgol ystyried eto.

Bydd y graddau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau Awst. Bydd cyfle i apelio i CBAC ar y pwynt yma.

Pwyntiau Penodol ar gyfer blynyddoedd unigol

Blwyddyn 11

Bydd yr asesiadau ar gyfer y mwyafrif o bynciau yn ystyried gwaith disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11. Mae nifer fach o bynciau yn gwneud arholiadau modiwl ym mlwyddyn 10 mewn blwyddyn arferol. Pan ddilëwyd yr arholiadau hyn yn 2020 nodwyd fod ni fyddai'r disgyblion yn gorfod gwneud yr arholiadau eto, felly nid yw'r gwaith ar gyfer y rhain yn rhan o'r asesu. Mae hwn yn effeithio gwyddoniaeth yn sylweddol - mae gwaith Bl10 gwyddoniaeth yn cael ei asesu ar ddiwedd blwyddyn 10 fel arfer, a gwaith Bl11 yn cael ei asesu ar ddiwedd blwyddyn 11. Bydd asesiadau gwyddoniaeth eleni yn canolbwyntio ar waith blwyddyn 11.

Blwyddyn 12

Bydd y graddau yn defnyddio gwaith blwyddyn 12 yn unig. Mae llawer o gyrsiau UG yn cynnwys dwy uned gydag uned 1 yn cael ei addysgu cyn Nadolig ac uned 2 ar ôl. Yn y pynciau hyn mae'n debygol fod uned 1 wedi cael ei asesu yn barod trwy brofion ac asesiadau cyn Nadolig. Nid yw graddau UG 2020 yn cyfrannu ar ganlyniadau safon uwch eleni, ac mae hwn yn debygol iawn o fod yn wir ar gyfer blwyddyn 12 hefyd wrth iddynt symud mewn i flwyddyn 13.

Blwyddyn 13

Bydd y graddau yn defnyddio gwaith blwyddyn 13 yn unig. Cyhoeddwyd yn haf 2020 ni fyddai'r graddau UG yn cyfrannu at safon uwch felly bydd ein cynllun asesu yn canolbwyntio ar waith blwyddyn 13 yn unig. Mae strwythur unedau blwyddyn 13 yn amrywio'n sylweddol felly bydd y prosesau asesu yn amrywio. Gall athrawon pwnc egluro sefyllfa eu pynciau unigol.